**Kate Ablett**
Pennaeth Pobl
Mrs Buckét

**Pam wnaethon ni lofnodi'r addewid**

Rydyn ni'n ymrwymedig i sicrhau gweithle sy'n gynhwysol ac yn rhoi'r cyfle i bobl dyfu. Rydyn i'n gwerthfawrogi ein haelodau tîm ac mae creu amgylchedd lle gallan nhw fod yn nhw eu hunain heb ofn yn allweddol i ni. Cenhadaeth ein cwmni yw newid y canfyddiad o'r diwydiant glanhau; heb ymroddiad ein timau, fyddwn ni ddim yn gallu cyflawni hyn. Felly, mae ymrwymo i Addewid Cyflogwyr Amser i Newid Cymru yn ffordd arall o fyw ein gwerthoedd, a 'Chanolbwyntio ar Bobl'.

**Sut glywsoch chi am yr addewid**

Clywais i (Kate Ablett) am Addewid Cyflogwyr Amser i Newid Cymru drwy gyflogwr blaenorol ac roedd yn teimlo fel estyniad cenedlaethol i Mrs Buckét fod yn gysylltiedig â'r addewid. Mae'n cyd-fynd â'n nodau, ein gwerthoedd a'n gweledigaeth, ac mae'n cynrychioli ein hethos lle rydyn ni am i'n cydweithwyr ffynnu a pherthyn.

**Sut i hyrwyddo ymwybyddiaeth o iechyd meddwl**

Rydyn ni'n defnyddio sawl dull o gyfathrebu yn Mrs Buckét, ac mae sawl cyfle i ni hyrwyddo ymwybyddiaeth iechyd meddwl. Caiff ein hymrwymiad i'r addewid ei hyrwyddo'n fewnol drwy ein grŵp cymuned ar Facebook, ein porthol i gyflogeion a chaiff ei rannu drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Rydyn ni hefyd wedi arddangos y bwrdd addewid yn ein pencadlys.

Byddwn ni'n parhau i uwchsgilio ein hunain a'n timau ar lesiant ac iechyd meddwl ac yn hyrwyddo ac yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd sy'n codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'n strategaeth llesiant a chynhwysiant fel cyflogwyr.

Byddwn ni'n hyrwyddo rôl Hyrwyddwr Cyflogeion gyda'r nod o ddefnyddio'r hyfforddiant a'r cymorth am ddim i gyflogwyr a geir fel Sefydliad sydd wedi Ymrwymo i Addewid Amser i Newid Cymru.

Mae'n bwysig bod ein cwsmeriaid yn ymwybodol o'n haddewid i Amser i Newid Cymru, a byddwn ni'n ymgysylltu â nhw ar sawl cyfle fel drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrwy ein sianeli cyfathrebu gan gynnwys ein gwefan a'n llwyfannau cymdeithasol. Byddwn ni hefyd yn ychwanegu stamp digidol 'Cyflogwr sydd wedi Ymrwymo i Addewid Amser i Newid Cymru' i'n gwefan a'n llofnod e-bost i bawb ei weld.

**Sut mae hyn yn helpu'r gweithle**

Mae'n bwysig bod Mrs Buckét yn ymrwymo i gamau gweithredu a all ein helpu i ddatblygu a galluogi amgylchedd lles meddyliol cadarnhaol.

Byddwn ni'n adolygu ac yn diweddaru ein polisïau i ymgorffori lles meddyliol, a fydd yn cynnwys diweddaru ein polisi absenoldeb, a chael canllawiau clir ar sut i gefnogi a chyfeirio ar gyfer salwch corfforol a salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Mae'n bwysig bod ein tîm rheoli'n teimlo'n hyderus yn delio â phryderon ynghylch iechyd meddwl ac yn rhoi'r hyfforddiant a'r adnoddau cywir iddyn nhw i'w galluogi i gefnogi a chynghori pan fydd angen. Bydd ein cynnig dysgu a datblygu yn cynnwys hyfforddiant a gweithdai uwchsgilio sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a rhagfarn ddiarwybod.

Byddwn ni'n diweddaru ein holl ddogfennau adolygu cyflogeion i gynnwys lle y gall cyflogeion hunanfyfyrio ar eu hiechyd meddwl eu hunain drwy eu cyfarfodydd un i un â'u rheolwyr a'u hannog i rannu straeon er mwyn cefnogi a hyrwyddo ymwybyddiaeth o iechyd meddwl.

Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo pwysigrwydd llesiant drwy rannu adnoddau, cyfeirio, a chodi ymwybyddiaeth yn fewnol drwy ein dulliau o gyfathrebu â chyflogeion, ac yn annog cyflogeion i ddod yn Hyrwyddwyr Amser i Newid Cymru.

Bydda i'n arwain y broses o weithredu, gwerthuso ac adolygu'r cynllun hwn bob blwyddyn gyda chefnogaeth yr uwch-dîm rheoli a'r tîm pencadlys craidd. Ynghyd â'n tîm Pobl a fydd yn rhoi cymorth parhaus i'n tîm rheoli a chyflogeion sy'n delio â salwch meddwl.

Byddwn ni'n parhau i fonitro ac adolygu llesiant ein tîm drwy ein harolwg ymgysylltu â chyflogeion a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Caiff y cwestiynau eu haddasu i sicrhau eu bod yn archwilio lles meddyliol ein tîm. Rydym hefyd yn ymrwymo i gynnal arolygon wythnosol fel cyfle i ymgysylltu â thimau amrywiol drwy ein dulliau cyfathrebu mewnol a'n system Adnoddau Dynol. Bydd yr adborth o'r arolwg yn rhoi cyfle i ni adolygu teimladau ac adborth cydweithwyr fel y gallwn addasu ein dull gweithredu a gwella'n barhaus.

Mae ein calendr ymgysylltu prysur yn ein galluogi i dreulio amser gyda'r tîm y tu allan i'r amgylchedd gwaith. Mae'n gyfle gwych i ymlacio, cael hwyl ac ymgysylltu â'r tîm. Rydyn ni hefyd yn awyddus i gymryd rhan mewn o leiaf un ymgyrch iechyd meddwl flynyddol, a'n gweledigaeth, erbyn y Diwrnod Amser i Siarad nesaf, yw y byddwn ni wedi creu digon o fomentwm ac ymgysylltiad o fewn y cwmni i gymryd rhan.